# Cofnodion y Grŵp Trawsbleidiol

www.senedd.cymru

## Cofnodion y Cyfarfod:

| | |
|---|---|
| **Teitl y Grŵp Trawsbleidiol:** | Grŵp Trawsbleidiol ar gyfer y Sector Gweithgareddau Awyr Agored |
| **Dyddiad y cyfarfod:** | 15 Gorffennaf 2021 |
| **Lleoliad:** | Dros Zoom |

## Yn bresennol:

| **Enw:** | **Teitl:** |
|---|---|
| Huw Irranc-Davies (HI-D) | Cadeirydd - Aelod o'r Senedd |
| Sam Rowlands (SR) | Is-gadeirydd - Aelod o'r Senedd |
| Cefin Campbell (CC) | Is-gadeirydd - Aelod o'r Senedd |
| Paul Donovan (PD) | Ysgrifenyddiaeth - Cynrychiolydd Cynghrair Awyr Agored Cymru a Sefydliad Twristiaeth Antur Cymru |
| Emma Henwood (EH) | Aelod Sylwedydd - Chwaraeon Cymru Cynrychiolydd |
| Loel Collins (LC) | Aelod - Cynrychiolydd Plas y Brenin |
| Graham French (GF) | Aelod - Cymdeithas Penaethiaid Canolfannau Addysg Awyr Agored a Chynrychiolydd Cyngor Dysgu Awyr Agored Cymru |
| Angela Charlton (AC) | Aelod - Cynrychiolydd Cerddwyr Cymru |
| Gethin Thomas (GT) | Aelod - Cymdeithas Ogofa Prydain Cynrychiolydd Pwyllgor Cymwysterau |
| Paul Airey (PA) | Aelod - Cynrychiolydd y Bartneriaeth Awyr Agored |
| Paul Frost (PF) | Aelod - Cynrychiolydd y Bartneriaeth Awyr Agored |

| | |
|---|---|
| Tracey Evans (TE) | Aelod - Cynrychiolydd y Bartneriaeth Awyr Agored |
| Gwenda Owen (GO) | Aelod - Cynrychiolydd Beicio'r DU |
| Gerwyn Owen (GeO) | Aelod - Cynrychiolydd Cymru'r Gymdeithas Hwylio Frenhinol |
| Paul Renfro (PR) | Aelod - Grŵp Siarter Awyr Agored Sir Benfro a Chynrychiolydd Fforwm Arfordirol Sir Benfro |
| Andy Taylor (AT) | Aelod - Cynrychiolydd Pwyllgor Cynghorol y Diwydiant Gweithgareddau Antur |
| Mike Rosser (MR) | Aelod - Panel Cynghorwyr Addysg Awyr Agored a Chynrychiolydd Adventure UK |
| Alison Roberts (AR) | Aelod Sylwedydd - Cynrychiolydd Cyfoeth Naturiol Cymru |
| Rebecca Brough (RB) | Aelod - Cynrychiolydd Cerddwyr Cymru |
| Elin Hywel (EH) | Yn cynrychioli Mabon ap Gwynfor, Aelod o'r Senedd |
| Simon Patton (SP) | Aelod - Cynrychiolydd Hyfforddiant Mynydda Cymru |
| Matt Williams (MW) | Aelod - Cynrychiolydd Cymdeithas Chwaraeon Cymru |
| Steven Morgan (SM) | Aelod - Cynrychiolydd Plas Menai |
| Chris Pierce (CP) | Aelod - Cymdeithas Penaethiaid Canolfannau Addysg Awyr Agored Cynrychiolydd |

## Ymddiheuriadau:

| **Enw:** | **Teitl:** |
|---|---|

| | |
|---|---|
| Sam Kurtz (SK) | Aelod o'r Senedd |
| Steve Rayner (SRa) | Aelod - Cynrychiolydd Grŵp Darparwyr Gweithgareddau Awyr Agored De Cymru |
| Arwel Elias (AE) | Aelod - Cynrychiolydd Panel Cynghorwyr Addysg Awyr Agored |
| Catherine Williams (CW) | Aelod - Cynrychiolydd Eryri-Bywiol |
| Emma Edwards-Jones (EE-J) | Aelod - Cynrychiolydd Eryri-Bywiol |
| Neal Anderson (NA) | Aelod - Cynrychiolydd y Sefydliad Dysgu Awyr Agored |
| Mark Weston (MW) | Aelod - Cynrychiolydd Cymdeithas Ceffylau Prydain |
| Eben Muss (EM) | Aelod - Cynrychiolydd Cyngor Mynydda Prydain (Cymru) |

## Crynodeb o'r cyfarfod:

### Agenda, nodiadau a chamau gweithredu

**1. Croeso, cyflwyniadau, ac ymddiheuriadau**

Croesawodd HI-D (y Cadeirydd Dros Dro nes cwblhau'r materion yn eitemau 2 a 3) bawb a oedd yn bresennol ac amlinellodd yr agenda a'r drefn.

**2. Enwebiadau ar gyfer Cadeirydd, Is-gadeirydd(ion) a'r Ysgrifenyddiaeth**

Trosglwyddodd HI-D i PD (Ysgrifenyddiaeth Dros Dro) a alwodd am enwebiadau gan Aelodau o'r Senedd (ASau) yn y cyfarfod ar gyfer rôl y Cadeirydd. Enwebodd SR HI-D, ac fe'i heiliwyd gan CC. Derbyniodd HI-D y rôl a throsglwyddodd PD yn ôl i'r Cadeirydd.

Galwodd HI-D am enwebiadau ar gyfer rôl/rolau Is-gadeirydd. Enwebodd CC SR ac fe enwebodd SR CC. Eiliwyd yr enwebiadau hyn gan HI-D. Derbyniodd CC ac SR rolau'r is-gadeiryddiaeth.

Nododd HI-D barodrwydd PD i ysgwyddo rôl yr Ysgrifenyddiaeth. Enwebodd SR PD ar gyfer y rôl hon, ac fe'i heiliwyd gan CC. Derbyniodd PD rôl yr Ysgrifenyddiaeth a nododd y byddai'n galw ar eraill i'w gefnogi yn y rôl hon.

**3. Cytuno Enw a Dben y Grŵp Trawsbleidiol**

Eglurodd PD mai enw arfaethedig ar y grŵp yw ***'Grŵp Trawsbleidiol ar gyfer y Sector Gweithgareddau Awyr Agored'.*** Gwnaed nifer o sylwadau a arweiniodd at gefnogaeth gyffredinol i'r enw, gan nodi ei fod yn enw hollgynhwysol. Cytunwyd mai enw'r grŵp fyddai ***'Grŵp Trawsbleidiol ar gyfer y Sector Gweithgareddau Awyr Agored'.*** Amlinellodd PD ddiben arthedig y grŵp fel a ganlyn: Llywio a dylanwadu ar bolisi'r dyfodol;

ii. Dyrchafu statws y sector gweithgareddau awyr agored yng Nghymru a chefnogi twf cynaliadwy'r sector;

iii. Cefnogi'r gwaith o hyrwyddo mynediad teg i'r amgylchedd naturiol ar gyfer gweithgareddau awyr agored.

Gwnaed nifer o sylwadau eto, y tro hwn mewn perthynas â'r diben y grŵp ac awgrym i gynnwys 'dysgu' ym mhwynt iii. Fe'i cytunwyd gan bawb. Mae diben cytunedig y grŵp fel a ganlyn:

i. Llywio a dylanwadu ar bolisi'r dyfodol;

ii. Dyrchafu statws y sector gweithgareddau awyr agored yng Nghymru a chefnogi twf cynaliadwy'r sector;

iii. Cefnogi'r gwaith o hyrwyddo mynediad teg i'r amgylchedd naturiol ar gyfer gweithgareddau awyr agored.

**4.Syniadau ar gyfer y flaenraglen waith a gweithgareddau**

Amlinellodd HI-D yr angen i sefydlu blaenraglen waith a chroesawodd syniadau gan bawb a oedd yn bresennol. Ceir isod drosolwg o'r awgrymiadau a wnaed yn ystod y cyfarfod a rhai awgrymiadau a wnaed i PD cyn y cyfarfod:

i. Addysg Awyr Agored a'i chynnal yn y dyfodol - sicrhau bod negeseuon cefnogol a anogaethol yn mynd i ysgolion i ddwyn sylw at y ffaith ei bod yn iawn cymryd rhan mewn profiadau preswyl ym maes addysg awyr agored;

ii. Cysylltiadau a synergedd o ran pob agwedd ar y sector gweithgareddau awyr agored, sy'n cynnwys: Addysg a dysgu gydol oes, chwaraeon a hamdden, yr amgylchedd a diwylliant, yr economi a thwristiaeth, iechyd a llesiant;

iii. Tynnu sylw at gryfderau bod yn yr awyr agored a sut i ymgysylltu â natur;

iv. Gwneud defnydd o'r awyr agored ar gyfer buddion iechyd a llesiant;

v. Ystyried yr elfennau niferus ym mholisi'r Llywodraeth - diwygio amaethyddiaeth, diwygio mynediad ac ati; vi. Defnyddio sefyllfa Covid fel catalydd i ystyried yr effaith ar gymunedau ac ati a rhaglen adferiad - addysg ynghylch sut i ddefnyddio'r amgylchedd naturiol;

vii. Cadw'n ddiogel yn yr awyr agored;

viii. Datblygu'r gweithlu a datblygu llwybrau at gyflogaeth - prentisiaethau.

Croesawyd yr holl sylwadau gan bawb.

**Cam Gweithredu 1.** *PD a HI-D i gysylltu dros yr haf gyda'r bwriad o nodi'r pwnc/pynciau cychwynnol ar gyfer y cyfarfod nesaf.*

**Cam Gweithredu 2.** *PD a HI-D i gysylltu ynglŷn â drafftio llythyr at Weinidogion i dynnu sylw at y ffaith bod y grŵp wedi cael ei sefydlu a'i barodrwydd i ymgysylltu â'r Llywodraeth a'i chefnogi.*

**5. Unrhyw fater arall**

Ni chodwyd unrhyw faterion eraill

**6. Dyddiad y cyfarfod nesaf**

**Cam Gweithredu 3.** *PD a HI-D i nodi dyddiad addas ar gyfer y cyfarfod nesaf ac ystyried pa mor aml y dylai cyfarfodydd o'r fath ddigwydd.*